OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 644 (Cy. 165)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A449 a'r A40 (Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd i Ffin Cymru/Lloegr, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Mai 2021* |
| *Yn dod i rym* | *3 Mehefin 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffyrdd yr A449 a'r A40, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A449 a'r A40 (Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd i Ffin Cymru/Lloegr, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Mehefin 2021.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw cefnffyrdd yr A449 a'r A40 Casnewydd i Gaerwrangon;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

  (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol: neu

  (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 3 Mehefin 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Gwaharddiadau a chyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr

---

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

awr ar y darn o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad yn erthygl 6 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**8.**—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Atal dros dro**

**9.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4, 5 a 6 yn weithredol.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Mai 2021

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwahardd cerbydau dros dro**

Y darn o gefnffordd yr A449 sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cyfnewidfa

Coldra, Casnewydd (Cyffordd 24) hyd at ganolbwynt Cyfnewidfa Rhaglan yr A449 a'r A40, Sir Fynwy.

Y darnau o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gogledd a thua'r de yr A449 wrth Gyfnewidfa Brynbuga, Sir Fynwy.

Y darnau o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gogledd a thua'r de yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan, Sir Fynwy.

## ATODLEN 2
## Terfynau cyflymder dros dro o 50 mya, 40 mya neu 10 mya a dim goddiweddyd

Y darn o gefnffyrdd yr A449 a'r A40 sy'n ymestyn o'u cyffordd â cherbytffordd gylchredol Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd (Cyffordd 24 yr M4) hyd at ganolbwynt trosbont Chapel Lane, i'r gogledd o Drefynwy.